OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 845 (Cy. 214)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Awst 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Awst 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Hydref 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(**2**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac fe ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Hydref 2016.

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ("Deddf 2006") a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) ("Deddf 2008"). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o Ddeddf 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**2**) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r gorchymyn dynodi hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mai 2014.

**Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliadau'r Gymuned" yn lle "Rheoliad 2075/2005" rhodder "Rheoliad 2015/1375"; a

(b) yn y diffiniad sy'n dechrau â "mae i "Penderfyniad 2006/766""—

(i) yn lle ""Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*")" rhodder ""Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375* ")"; a

(ii) hepgorer ""Rheoliad 1109/2011" ("*Regulation 1109/2011*")".

(3) Yn Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth UE)—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*"), yn lle "Rheoliad 2075/2005" rhodder "Rheoliad 2015/1375";

(b) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*");

(c) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 1109/2011" ("*Regulation 1109/2011*"); a

(d) ar ddiwedd yr Atodlen ychwaneger y diffiniad a ganlyn—

""ystyr "Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(**5**)."

(4) Yn Atodlen 2 (darpariaethau Cymunedol penodedig)—

(a) yng ngholofn gyntaf y cofnod olaf, yn lle "Reoliad 2073/2005" rhodder "Reoliad 2015/1375"; a

(b) yn ail golofn y cofnod olaf, yn lle'r testun presennol rhodder y testun a ganlyn—

"Gofyniad bod rhaid i weithredwyr busnes bwyd daliadau y cydnabyddir yn swyddogol eu bod yn cymhwyso amodau tai a reolir roi gwybod i'r awdurdod cymwys am unrhyw ofyniad o Atodiad IV i Reoliad 2015/1375 nad yw bellach yn cael ei gyflawni neu unrhyw newid arall a allai effeithio ar statws *Trichinella* daliadau."

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru.

16 Awst 2016

(**4**) O.S. 2006/31 (Cy. 5) diwygiwyd gan O.S. 2010/893 (Cy. 92), O.S. 2011/1043, O.S. 2012/975 (Cy. 129), O.S. 2012/1765 (Cy. 225), O.S. 2013/479 (Cy. 55), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308), O.S. 2014/1858 (Cy. 192), O.S. 2014/2303 (Cy. 227), O.S. 2014/3080 (Cy. 305).

(**5**) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t 7.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud amrywiol ddiwygiadau i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/31 (Cy. 5)) i ddarparu ar gyfer gweithredu a gorfodi yng Nghymru Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig (OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t 7).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.